**Comisiynydd Plant Cymru**

**Amcangyfrif cyllideb 2019/20**

**Cynnwys**


1. Cyflwyno'r amcangyfrif
2. Rôl Comisiynydd Plant Cymru
3. Trefniadau llywodraethu
4. Ein perfformiad
5. Effaith ar y Gronfa Gyffredinol

## 1. Cyflwyno'r amcangyfrif

Rwy'n cyflwyno'r amcangyfrif hwn o'r gyllideb i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan baragraff 6(2) o Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Rwyf wedi seilio fy amcangyfrif cyllideb - a'm cynllun cyflwyno drafft - ar y ffaith y bydd yr ariannu ar fy nghyfer yn parhau yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol, sef £1,543,000.

**Tabl 1: Amcangyfrif a lefel cyllideb ddangosol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf**

| | **Amcangyfrif 2019-20** (£) | **Dangosol 2020-21** (£) | **Dangosol 2021-22** (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 1,091,147 | 1,112,510 | 1,126,886 |
| Safleoedd | 88,103 | 88,103 | 88,103 |
| Costau Swyddfa | 74,900 | 74,900 | 74,900 |
| Hyfforddiant a llesiant | 25,100 | 25,100 | 25,100 |
| Teithio a chynhaliaeth | 14,550 | 14,550 | 14,550 |
| Ffi archwilio allanol | 17,883 | 17,883 | 17,883 |
| Ffi archwilio mewnol | 10,500 | 10,500 | 10,500 |
| Cyfathrebu | 47,050 | 47,050 | 47,050 |
| TGCh | 30,500 | 30,500 | 30,500 |
| Costau prosiect | 159,667 | 146,401 | 132,200 |
| Cyfalaf a dibrisiad | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,569,400** | 1,577,497 | 1,577,672 |
| | | | |
| **Cyllid gan Lywodraeth Cymru** | **1,543,000** | 1,543,000 | 1,543,000 |
| | | | |
| **Gor / (Tan) Wariant** | 34,420 | 34,497 | 34,672 |

## 2. Rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC), a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Mae fy nghylch gorchwyl wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fy mhrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma fy amcan gor-redol wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Y diffiniad o blentyn yn Neddf 2000 yw person o dan 18 oed, er fy mod i'n gallu gweithredu pan fydd person ifanc yn hŷn na hyn o dan rai amodau. Er enghraifft, galla i weithredu ar ran person ifanc sydd wedi cael ei roi mewn gofal ac y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu amdano/amdani o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth ymarfer fy swyddogaethau, rhaid i mi roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - siarter ryngwladol sy'n nodi'r isafswm safonau ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer fy ngwaith i gyd. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal yng Nghymru, galla i adolygu swyddogaethau neu ymarferiad swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, ac adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau plant yng nghyswllt delio gyda chwynion a sylwadau, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i ddatgelu camarfer, cynrychioli barn a dymuniadau plant, a rhoi cyngor a chefnogaeth i blant.

Mae fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Gallaf hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

## 3. Trefniadau Llywodraethu

Fel corfforaeth un person, fi sy'n gyfrifol ac yn atebol am weithgareddau fy swyddfa, ac fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am gynnal system lywodraethu gadarn. Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Mae fy Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen i mi gyfeirio a rheoli gweithgareddau fy swyddfa. Mae'r elfennau canlynol yn allweddol:

**Y Tîm Rheoli**

Ei brif ddiben yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Mae'r Tîm hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, gan reoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

**Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Panel Pobl Ifanc**

Mae'r paneli hyn yn darparu cefnogaeth annibynnol ar ffurf cyngor, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a bod ei staff yn gwneud yr un modd yn achos polisïau a chynigion , gan lywio'r polisi a'r blaenoriaethau strategol.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Mae'n cynghori'r Comisiynydd ynghylch y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a'r gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

- **Archwilio Mewnol**

Mae Deloitte yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer y swyddfa. Maent yn gweithredu'n unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y sefydliad. Yn eu Hadroddiad Blynyddol diweddaraf i mi, rhoddodd Deloitte sicrwydd sylweddol mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Daethant hefyd i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethant y llynedd, fod gennym system gadarn ar gyfer rheolaeth fewnol, a ddylai ddarparu sicrwydd sylweddol mewn perthynas â chyflawni fy amcanion.

- **Archwilio Allanol**

Ar sail flynyddol, mae cyfrifon fy sefydliad yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Safonau Gofal. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon. Yn 2018, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon ar gyfer 2017/18.

## 4. Ein perfformiad

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf yn cynnwys dadansoddiad manwl o'n cyflawniadau. Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae ein gwaith prosiect a chraidd (o ddydd i ddydd) wedi cyflawni yn erbyn ein cynllun tair blynedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Isod ceir crynodeb o gyflawniadau allweddol eleni:

- Gwrandawyd ar 9443 o blant a phobl ifanc ledled Cymru
- Cynorthwywyd 554 o blant a phobl ifanc unigol trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor
- Aseswyd cynnydd o ran mynediad i gadeiriau olwyn mewn ysgolion
- Cyhoeddwyd 'Stori Sam', adroddiad oedd yn amlygu barn 2000 o blant ynghylch bwlio, datblygwyd adnoddau ar gyfer ysgolion, a threfnwyd arddangosfa Stori Sam yn y Senedd
- Cyflwynwyd tystiolaeth newydd ynghylch profiadau plant o chwarae a hamdden
- Datblygwyd gwersi 'Taclo Islamoffobia' sensitif a phwerus ar gyfer ysgolion, gan newid dealltwriaeth ac agweddau plant
- Gwrandawyd ar brofiadau pobl ifanc ag anableddau dysgu, a'u teuluoedd, wrth iddyn nhw symud tuag at oedolaeth
- Sicrhawyd dyletswydd gyfreithiol newydd ar gyfer hawliau plant yn y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ym myd addysg
- Sicrhawyd rhagor o gyfleoedd ac adnoddau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- Sicrhawyd bod plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn gofal yn cael cyfle i fynegi barn trwy arolwg Bright Spots
- Gweithiwyd gyda chyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Carchar y Parc, Amgueddfeydd Cymru ac awdurdodau lleol i roi Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith
- Cyhoeddwyd canllaw newydd i ysgolion ar sut mae rhoi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, a chefnogwyd miloedd o ddisgyblion a'u hathrawon i ddysgu am hawliau a dylanwadu ar ein gwaith trwy ein cynlluniau llysgenhadon llwyddiannus
- Cynhyrchwyd pecyn offer hunan-asesu gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, er mwyn i gyrff cyhoeddus fedru gweithio ar hawliau plant ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Ymyrrwyd er mwyn diogelu canolfannau Atgyfeirio wedi Ymosodiad Rhywiol
- Galluogwyd ysgolion cynradd i sefydlu clybiau a gweithgareddau newydd pontio’r cenedlaethau, oedd yn rhoi boddhad, gyda'u cymdogion hŷn
- Ymgysylltwyd ag eco-bwyllgor ysgol gynradd i archwilio ein cofnod amgylcheddol, a newid ein hymddygiad o ganlyniad
- Daethom ni'n gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn
- Sicrhawyd sylw i waith y Comisiynydd 763 o weithiau yn y cyfryngau

## 5. Effaith ar y Gronfa Gyffredinol

Yn ôl Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, lefel cronfa gyffredinol y Comisiynydd oedd £271,000. Y rheswm am y rhan fwyaf o'r cynnydd yng ngwerth y gronfa gyffredinol ers 2016/17 oedd y cyllid ychwanegol o £40,000 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru y flwyddyn honno i dalu am brosiect 'Bright Spots'. Oherwydd ffactorau allanol oedd y tu hwnt i'n rheolaeth, ni chwblhawyd y prosiect hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, felly roedd yr arian (£40,000) yn dal yn ein cyfrifon. Mae'r prosiect bellach wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus, a rhyddhawyd yr holl arian i gontractwr y prosiect.

Mae'r tabl isod yn amcangyfrif effaith y symudiad rhwng gweddill 2018/19 a'r gyllideb/ariannu ar gyfer y tair blynedd nesaf ar y gronfa gyffredinol:

**Tabl 2: Symudiad yn y Gronfa Gyffredinol yn ystod y cyfnodau ariannol**

| | **2018-19 (£)** | **2019-20 (£)** | **2020-21 (£)** | **2021-22 (£)** |
|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol ar ddechrau'r cyfnod | 271,000 | 218,806 | 184,386 | 149,889 |
| Gor / (Tan) Wariant | 52,194 | 34,420 | 34,497 | 34,672 |
| Y Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y cyfnod | 218,806 | 184,386 | 149,889 | 115,217 |

Yn unol â'm polisi ar gronfeydd cyffrediol, rwy'n ymroddedig i sicrhau fy mod yn cynnal gwarged cadarnhaol yn y gronfa gyffredinol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl. Rwy'n parhau i fonitro'r rhagdybiaethau gwaelodol ac yn adolygu lefel y gronfa yn flynyddol.

Rwyf wedi rhagweld y gorwariant a gynlluniwyd ar gyfer y tair blynedd sy'n weddill o'm cyfnod yn swydd y Comisiynydd. Mae hyn yn cynrychioli ariannu interniaid am dâl teg i gefnogi fy nhîm i gyflawni ein rhaglen waith uchelgeisiol. Mae hefyd yn darparu cyfle datblygu gyrfa strwythuredig ar gyfer pobl ifanc sy'n dod yn rhan o’r cynllun. Bydd y gwariant hwn yn cael ei adolygu a'i addasu'n flynyddol.

Fel swyddog cyfrifyddu darbodus, mae gennyf ragolygon ariannol manwl, ac rwy'n eu trafod gyda'm Tîm Rheoli bob mis, a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob chwarter. Mae'r rhagolygon hyn yn edrych ar yr amgylchiadau y mae angen i mi weithredu oddi mewn iddynt, er mwyn cyflawni fy nghynllun strategol uchelgeisiol sydd wedi'i seilio ar ymgynghori helaeth â phlant a phobl ifanc. Un elfen allweddol yw sicrhau cyllideb gyson gan Lywodraeth Cymru. Yr ail yw sicrhau lleoliad swyddfa addas ar gyfer fy nhîm o staff, gan fod ein prydles bresennol yn dod i ben yn 2021. I'r diben hwnnw

rwyf wedi sefydlu Darpariaeth ar gyfer Dirywiad yr Adeilad, yn 2017-18, a fydd yn talu am y gwariant angenrheidiol i gydymffurfio â'm rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y brydles bresennol.

Er mwyn sicrhau gwrthrychedd a phenderfyniad prydlon rwyf wedi sicrhau, heb gost, aelod staff o Lwybr Carlam Cyllid y Gwasanaeth Sifil am 6 mis (yn cychwyn ar 1 Hydref 2018), i ymgymryd â chyfnod olaf ein prosiect llety. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad llawn, gan gynnwys dadansoddiad cost-budd, o'r holl opsiynau. Rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno papur penderfyniad i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Chwefror 2019.

Rwyf hefyd yn parhau i adolygu llinellau cyllideb unigol a'm hymrwymiadau gwariant bob mis gyda'm Tîm Rheoli, er mwyn sicrhau bod fy ngwariant yn canolbwyntio ar gyflawni fy amcanion strategol clir, sydd i gyd yn ceisio sbarduno newid cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er fy mod yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth, mewn ysbryd o dryloywder, rwy'n trafod fy sefyllfa ariannol bresennol bob chwarter gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fy nghronfeydd wrth gefn, a hefyd y rhagolygon cyllideb yr wyf yn eu paratoi bob mis gyda'm Tîm Rheoli. Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn fy herio ynghylch fy ngwariant a'm hamcangyfrif.

DIWEDD